newyddion
# LLAIS SIR GÂR

Carmarthenshire Voice
Llais Sir Gâr

## AROLWG 17 (Hydref 2006)

Cawsom 688 o ymatebion i'r arolwg hwn, gan roi cyfradd ymateb o 59%.

Yn arolwg 17 yr oeddem wedi gofyn am eich barn am nifer o faterion, sef gweithdrefn gwynion Cyngor Sir Caerfyrddin, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Rhaglen Dysgu a Datblygu Gychwynnol yr Heddlu, Tîm Rheoli Clefydau Cronig Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin, a hefyd y Panel ei hun.

Gan fod canlyniadau arolwg 17 yn cael eu dadansoddi o hyd, nid ydym yn gallu rhoi adroddiad am yr holl ganlyniadau na chasgliadau ar hyn o bryd; fodd bynnag, byddwn yn sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am hyn yn y llythyr newyddion nesaf.

## A'R ENILLYDD YW....

Diolch i bawb a gyfrannodd at arolwg diwethaf Llais Sir Gâr. Mae cwblhau'r arolygon yn cymryd amser, ac mae'r ymatebion yr ydym wedi eu derbyn yn dangos yn glir eich bod wedi rhoi ystyriaeth ddwys i bob cwestiwn.

I ddangos ein bod yn gwerthfawrogi eich ymdrechion ac i ddiolch ichi, rydym yn cynnwys pob un o'r arolygon a ddychwelir mewn raffl fawr. Dewiswyd enillydd ar hap o ran Arolwg 17 ac mae ein henillydd, o ardal Hendy-gwyn, bellach â £50 yn ychwanegol yn ei boced!

Sicrhewch eich bod yn cwblhau Arolwg 18 (yn amgaeëdig) i gael cyfle i ennill y tro nesaf.

## CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

**A oeddech chi am gwyno am y Cyngor, neu am unrhyw rai o wasanaethau'r Cyngor, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?**

Dywedodd y rhan fwyaf ohonoch (69%) nad oeddech am gwyno am y Cyngor nac am unrhyw rai o'i wasanaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; fodd bynnag o ran y rhai hynny o'ch plith oedd wedi cwyno, yr oedd mwy na thri chwarter (76%) wedi dweud bod y broses yn 'rhwydd'' neu'n 'rhwydd iawn'.

Gan gyfeirio at fater ymateb i gwynion, yr oeddech yn teimlo bod y targed presennol o ran y Weithdrefn Cwynion a Chanmoliaeth, sef 10 diwrnod gwaith, fwy neu lai yn briodol (65%).

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Penodir yr Ombwdsmon i ymchwilio i gwynion am y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n annibynnol ac yn ddiduedd. Mae'r meysydd y mae'n gallu ymchwilio iddynt yn cynnwys llywodraeth leol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Os bydd yr Ombwdsmon yn cadarnhau eich cwyn, bydd yn rhoi gwybod i'r corff dan sylw beth, yn ei farn ef, y dylai'r corff ei wneud i unioni'r sefyllfa. Ni all yr Ombwdsmon orchymyn i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol â'i argymhelliad - ond, yn ymarferol, maent yn gwneud hynny bron yn ddieithriad.

Yr oedd 59% ohonoch wedi dweud eich bod wedi clywed o'r blaen am yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (a elwid gynt yn 'Ombwdsmon Llywodraeth Leol') ac yr oedd 57% ohonoch yn gwybod bod ganddo weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion am gyrff cyhoeddus. Yr oedd y rhan fwyaf ohonoch o ddigon (92%) wedi dweud na fu gennych gwyn i'r Ombwdsmon am Gyngor Sir Caerfyrddin, nac am ddim o'i wasanaethau, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

# HEDDLU DYFED-POWYS

## Sefydlwyd Rhaglen Dysgu a Datblygu Gychwynnol yr Heddlu

Sefydlwyd Rhaglen Dysgu a Datblygu Gychwynnol yr Heddlu (IPLDP) ar gyfer swyddogion dan hyfforddiant, a'i diben yw hoelio sylw ar ymwneud â'r gymuned.

Yn eich barn chi beth yw'r ffordd orau o gael cymunedau i fod yn gysylltiedig â dysgu swyddogion sydd dan hyfforddiant?

Yr oedd 36% ohonoch yn barnu taw'r ffordd orau o gael cymunedau i fod yn gysylltiedig â'r Rhaglen Dysgu a Datblygu Gychwynnol oedd trwy fynd i'r gymuned e.e. trwy gynnal digwyddiadau gweladwy, a thrwy leoliadau cymunedol (32%). Yr oedd 16% ohonoch yn barnu taw'r ffordd orau o wneud hynny oedd cynnal grwpiau trafod trefnus gyda swyddogion dan hyfforddiant ynghylch materion amrywioldeb, hynny yw, oedran, anabledd, hil / crefydd / ffydd, tueddfryd rhywiol a rhywedd; yr oedd 14% am ganiatáu i bobl sôn am eu profiadau wrth swyddogion dan hyfforddiant, ac yr oedd 2% wedi awgrymu gweithgareddau chwarae rôl.

Mae nifer o ddigwyddiadau cymunedol e.e. lleoliadau iechyd meddwl a lleoliadau gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog, chwarae rôl, a grwpiau ffocws, wedi eu cynnal eisoes ledled y sir, a bydd y rhain yn dal i gael eu cynnal - mae rhagor o fanylion ar gael isod.

| Lleoliad | Gweithgaredd | Dyddiadau Arfaethedig |
|---|---|---|
| Dalfa Rhydaman | Chwarae rôl (4-6 person yn chwarae rôl) | 31.10.07 a 01.05.07 |
| Canolfan Santes Elli | Chwarae rôl yn y gymuned (10-12 person yn chwarae rôl) | 13.02.07 a 15.05.07 |
| Pont Abraham | Chwarae rôl yn y gymuned (8 person yn chwarae rôl) | 03.05.07 a 02.08.07 |
| Oakwood | Chwarae rôl yn y gymuned (10-12 person yn chwarae rôl) | 15.08.07 a 14.11.07 |

Noder: Mae'r dyddiadau uchod yn gywir adeg eu hargraffu.

Os hoffech dderbyn ychwaneg o wybodaeth am y gweithgareddau hyn neu os hoffech gymryd rhan ynddynt, cysylltwch â Karen Waters ar 01267 226159.

# BWRDD IECHYD LLEOL SIR GAERFYRDDIN

Mae'r Tîm Rheoli Clefydau Cronig wedi ei sefydlu er mwyn helpu pobl yn Sir Gaerfyrddin sydd yn dioddef o rai clefydau cronig. Bydd y tîm yn gweithio yn y gymuned gan estyn cymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain. Bydd aelodau'r tîm yn rhoi cyngor i bobl ynghylch sut mae ceisio rheoli eu cyflwr er mwyn gwella ansawdd eu bywyd, gan geisio lleihau'r angen am dreulio cyfnod mewn ysbyty, ac, os bydd rhaid iddynt dreulio amser yn yr ysbyty, bydd y tîm yn estyn cefnogaeth iddynt yn eu cartrefi gan obeithio lleihau'r amser a dreuliant mewn ysbyty. Mae pobl yn gallu cael eu cyfeirio at y tîm gan eu meddyg teulu neu gan sefydliadau gofal eilaidd.

Dywedodd 87% ohonoch nad oeddech wedi clywed am y Tîm Rheoli Clefydau Cronig cyn cael yr holiadur; fodd bynnag, yr oedd y rhan fwyaf ohonoch (94%) wedi dweud y byddech yn caniatáu i'r tîm ddod i'ch cartref, petai eich meddyg yn cynnig gwasanaeth y tîm i chi.

Yn eich barn chi, pa glefydau/anhwylderau y dylai'r Tîm Rheoli Clefydau Cronig roi sylw iddynt?

Pan ofynnwyd i chi pa glefydau/anhwylderau y dylai'r Tîm Rheoli Clefydau Cronig roi sylw iddynt, yr oeddech wedi ymateb fel a ganlyn

| | |
|---|---|
| Parlys ymledol | 82% |
| Canser | 81% |
| Strôc | 81% |
| Afiechyd llesteiriol cronig ar yr ysgyfaint | 76% |
| Ffibrosis codennog | 76% |
| Crydcymalau gwynegol | 74% |
| Methiant y galon | 72% |
| Clefyd siwgwr | 71% |
| Epilepsi | 62% |
| Asthma | 62% |

## Aelodau'r Panel

Mae aelodaeth y Panel yn cael ei monitro yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr aelodau yn gynrychioliadol o drigolion y sir; ac mae traean aelodau'r Panel yn newid bob blwyddyn. Hefyd mae'r broses hon yn galluogi gr?p newydd o drigolion i gael dweud eu dweud; felly dros gyfnod bydd miloedd o bobl yn cael cyfle i fod yn gysylltiedig â chynllunio, datblygu a monitro gwasanaethau newydd.

Bydd yr aelodaeth yn cael ei diweddaru nesaf ar ddechrau 2007, a byddwn yn ysgrifennu atoch os bydd hyn yn effeithio arnoch chi. Os nad yw hyn yn effeithio arnoch, byddwch yn dal i gael arolygon y Panel fel arfer.

PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN

# EICH BARN CHI AM Y PANEL




Yr oedd y rhan fwyaf ohonoch (52%) wedi dweud eich bod yn mwynhau 'tipyn' ar fod yn aelod o'r Panel, a hefyd eich bod yn barnu ein bod yn gofyn am eich barn nifer priodol o weithiau (82%).

Yr oedd y rhan fwyaf ohonoch yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- Mae cymryd rhan yn y Panel wedi bod yn ddiddorol (68%)
- Yr wyf yn teimlo fy mod yn cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus (67%)
- Yr wyf wedi bod yn cael gwybod yn rheolaidd am gasgliadau'r holiaduron, ac am beth sy'n digwydd mewn ymateb i hynny (64%)
- Yr wyf yn teimlo bod gennyf ymroddiad i'r Panel (50%)
- Mae'r Panel wedi rhoi cyfle i mi ddylanwadu ar y penderfyniadau y mae'r partneriaid yn eu gwneud (46%)

Yr oedd y rhan fwyaf ohonoch yn anghytuno bod y Panel yn wastraff ar adnoddau (54%) ac ar amser (51%), ac nid oeddech yn cytuno nac yn anghytuno bod gennych farn fwy cadarnhaol am y partneriaid (43%) a bod pethau wedi gwella o ganlyniad i'r Panel (42%), ers i chi fod yn aelod.

**Yr Holiadur**

O ran yr holiadur, yr oeddech wedi cytuno:

- Bod dyluniad yr holiadur yn ei gwneud hi'n rhwydd i chi ei gwblhau (73%)
- Bod 3 holiadur y flwyddyn yn nifer priodol (73%)
- Yn gyffredinol, bod yr holiaduron yn ddiddorol (68%)
- Ei bod yn anodd rhoi eich barn am wasanaethau nad oeddech wedi eu defnyddio (61%)
- Bod y cwestiynau a ofynnwyd yn berthnasol i'ch ardal chi (61%)

Yr oeddech yn anghytuno bod yn anodd deall y termau/geiriau oedd yn cael eu defnyddio (60%) a'i bod yr holiaduron yn rhy hir (57%).

# ADBORTH

Daliwch ati i roi eich barn i ni, er mwyn i ni barhau i wneud gwelliannau. Os hoffech gynnig sylwadau ar unrhyw agwedd benodol ar Banel Dinasyddion Sir Gâr, cysylltwch â:

Y Cydlynydd Ymgynghori
Cwsmeriaid a Pholisi
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Dref
Llanelli

Ffôn: 01554 742304

E-bost: consultation@sirgar.gov.uk

# Y Llythyr Newyddion

O ran y llythyr newyddion, yr oedd y rhan fwyaf ohonoch yn cytuno:

- Bod yr erthyglau wedi eu hysgrifennu mewn modd clir (83%)
- Bod y wybodaeth yn hawdd ei deall (80%)
- Bod y llythyr newyddion yn llawn gwybodaeth (77%)
- Bod amrywiaeth helaeth o erthyglau (74%)
- Bod gan y llythyr newyddion arddull a dyluniad atyniadol (60%)
- Bod yr erthyglau yn berthnasol i chi (42%)

Ac yr oeddech yn anghytuno bod y llythyr newyddion yn ddiflas (59%), nad oedd yn cynnwys digon o luniau (37%), ac y dylai'r llythyr newyddion gael ei ddosbarthu yn fwy aml (35%).

Hefyd yr oeddem wedi nodi, o graffu ar eich ymatebion, yr hoffech gael gwybod rhagor am ganlyniadau ein harolygon; felly yr ydym wedi neilltuo gweddill y llythyr newyddion hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am bynciau a fu dan sylw yn y gorffennol.

# DYFED-POWYS POLICE

## Plismona'r Ffyrdd (Hydref 2005)

## Y Newyddion Diweddaraf gan y Tîm Gwerth Gorau:

Yr oedd eich ymatebion wedi cyfrannu at yr argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad Gwerth Gorau o Blismona'r Ffyrdd, ac a roddwyd gerbron Gr?p Prif Swyddogion Heddlu Dyfed-Powys yn ddiweddar.

O gael eu cymeradwyo, bydd yr argymhellion hyn yn rhoi arweiniad o ran sut y bydd y Llu yn ymdrin â phob agwedd ar Blismona'r Ffyrdd e.e. diogelwch y ffyrdd ac atal damweiniau, addysgu gyrwyr ifainc, gorfodi rheolau traffig, ac atal troseddwyr rhag defnyddio'r rhwydwaith ffyrdd drwy ddefnyddio system Adnabod Rhifau Cerbydau'n Awtomatig (ANPR).

Wrth lunio argymhellion, rhoddwyd ystyriaeth fanwl i fframwaith y gwasanaeth plismona ffyrdd yn heddluoedd eraill Cymru, fel y gall Heddlu Dyfed-Powys gydweithio â'r rhain er mwyn sicrhau bod ffyrdd Dyfed-Powys yn fwy diogel ar gyfer y cyhoedd.

**Er Gwybodaeth:**

Ar hyn o bryd mae Heddlu Dyfed-Powys yn arwain yr Ymgyrch Gyrwyr Anghyfreithlon, a ddechreuodd ar Fedi 26ain, ac a fydd yn cael ei chynnal ym mis Hydref hefyd.

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cefnogi Ymgyrch y Gaeaf yn erbyn Yfed/Cymryd Cyffuriau a Gyrru drwy gydol mis Rhagfyr, ynghyd â'r ymgyrch Yfed a Chyffuriau, sydd yn ymgyrch ledled Prydain gan yr Adran Drafnidiaeth.

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch ar ffurf print bras, Braille neu dâp sain, ffoniwch 01554 742304

## Troseddau Casineb (Hydref 2005)

Y diffiniad o drosedd casineb yw trosedd yn erbyn unigolyn neu eiddo, sydd yn cael ei ysgogi gan gasineb y troseddwr at bobl am fod y troseddwr yn ystyried bod y bobl hynny yn wahanol. Gan amlaf mae'r rhagfarn neu'r casineb hwn wedi ei anelu at dueddfryd rhywiol, rhywedd, hil, anabledd, neu ffydd.

**Y Newyddion Diweddaraf:**

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â throseddau casineb drwy'r fenter 'Gweld yn Glir'. Yn ddiweddar mae'r Llu wedi penodi Swyddog Atal Troseddau Casineb, a fydd yn meithrin cysylltiadau agos â grwpiau a chymunedau lleiafrifol yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Hefyd bydd y swyddog hwn yn gweithio law yn llaw ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill, er mwyn ennyn ymddiriedaeth a hyder rhwng y grwpiau lleiafrifol a Heddlu Dyfed-Powys.

Mae'r pecyn 'Gweld yn Glir' yn rhoi gwybodaeth ynghylch sut y gall dioddefwyr neu dystion roi gwybod am droseddau casineb, boed hynny yn ddienw neu drwy roi'r manylion personol llawn i'r heddlu. Mae pecynnau gwybodaeth ar gael ym mhob un o orsafoedd Heddlu Dyfed-Powys, ac mae mwy na 10,000 ohonynt wedi eu dosbarthu i lefydd cyhoeddus eraill ledled ardal y Llu, gan roi cyfle i bob un roi gwybod am droseddau casineb. Yn ogystal, lansiwyd Llinell Gwybodaeth am Droseddau Casineb er mwyn rhoi cyngor a chyfarwyddyd i ddioddefwyr.

**Rhif y llinell hon yw 0845 122 8645.**

**Hefyd gellir rhoi gwybod am ddigwyddiadau drwy fynd i www.report-it.org.uk drwy wefan 'Gweld yn Glir', neu'n uniongyrchol i'ch gorsaf leol drwy ffonio 0845 330 2000**

## Plismona Bro

Mae Plismona Bro yn elfen allweddol o Raglen Diwygio'r Heddlu gan y Llywodraeth, ac mae'n amlinellu dull plismona sydd yn agored ac sydd yn ymateb i anghenion yr holl ddinasyddion. Mae'r heddlu wedi ymrwymo i wella ansawdd eich bywyd drwy gydweithio â'r partneriaid i dargedu'r materion sydd bwysicaf i chi.

Ein hamcanion

Ein hamcan yw sicrhau bod ein broydd yn ddiogel ac yn hyderus, a hynny drwy gyfrwng gwasanaeth sydd wedi ei addasu yn ôl yr anghenion lleol, ac sydd felly:

- Yn agored i'r holl ddinasyddion
- Yn rhoi cyfle i'r holl ddinasyddion ddylanwadu ar y blaenoriaethau o ran diogelwch cymunedol yn eu bro
- Yn ymateb mewn modd dan reolaeth a phendant i'r blaenoriaethau lleol, gan wneud hynny law yn llaw â'r partneriaid ac mewn dull gweladwy
- Yn rhoi penderfyniadau ar waith ac yn cynnig atebion o ran pryderon lleol.

**Y Newyddion Diweddaraf:**

**Ymwneud â'r Gymuned**

Mae ymgynghori ac ymwneud â chynrychiolwyr yr holl gymunedau, yr awdurdod lleol, a'r prif randdeiliaid eraill ledled Sir Gaerfyrddin wedi bod yn elfen ganolog o sefydlu'r 'broydd'. Ar hyn o bryd mae 32 o 'froydd' yn Sir Gaerfyrddin. Mae ein gwaith ymchwil diweddaraf wedi cadarnhau bod ein trigolion am weld rhagor o Heddweision a Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu ar ddyletswydd yn eu cymunedau.

**Timau Penodedig**

Mae gan bob Tîm Bro yn Sir Gaerfyrddin ardal ddaearyddol benodedig sydd yn gallu cwmpasu un neu ragor o wardiau etholiadol. Mae aelodau'r timau yn weladwy, yn hawdd mynd atynt, yn adnabyddus yn lleol, ac yn adnabod eu hardaloedd. Yn ogystal â defnyddio'r pwerau gorfodi llawn sydd ganddynt i ymdrin â throseddu ac anhrefn, byddant hefyd yn cydweithio â'r partneriaid er mwyn mynd i'r afael â'r materion sydd bwysicaf i'r bobl leol.

**Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu**

Mae gan Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu rôl allweddol o ran cefnogi'r Timau Plismona Bro, ac mae Heddlu Dyfed-Powys yn recriwtio rhagor o Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu ar hyn o bryd yn unswydd er mwyn estyn cymorth i'r timau. Ar hyn o bryd mae gan Sir Gaerfyrddin 17 o Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu sydd yn gweithio ochr yn ochr â'r heddweision bro ledled y sir. Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth ffoniwch y rhif isod a gofyn am y Tîm Plismona Bro sydd yn gyfrifol am eich ardal chi.

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Bwrdd Iechyd Lleol Local Health Board
Sir Gaerfyrddin Carmarthenshire

# PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN